

## **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: Michelle Matheron

Sefydliad (Ile bo'n berthnasol): Y Brifysgol Agored

E-bost:  
michelle.matheron@open.ac.uk

Eich cyfeiriad: 18 Heol y Tollty , Caerdydd CF10 1AP

### Cynllunio Strategol

#### **Cwestiwn 1:**

Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyfrannu at waith cynllunio strategol ar lefel genedlaethol ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru o'r farn bod sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle mawr i sicrhau dull integredig o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy'n cydfynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac sy'n darparu'r sgiliau a'r addysg sydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol. Dyma rai o'r manteision y gallai sefydlu'r Comisiwn eu sicrhau yn ein barn ni:

- Creu llwybrau dysgu gwell drwy addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Cyfleoedd gwell ar gyfer dilyniant dysgwyr
- Darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cynhwysfawr i bawb, gan gynnwys dysgwyr sy'n oedolion a myfyrwyr rhan-amser
- Cyfleoedd gwell i gydweithio a lleihau biwrocratiaeth
- Parch cydradd rhwng pob lefel a dull o astudio
- Gwella deilliannau dysgwyr.

Gellir cyflawni hyn os bydd y Comisiwn yn rhoi'r myfyriwr wrth wraidd ei waith a'i benderfyniadau ac yn ymrwmo i gynrychioli a darparu ar gyfer pob math o fyfyrwr, nid dim ond myfyrwyr ifanc mewn addysg amser llawn. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau parch cydradd rhwng darpariaeth ran-amser a darpariaeth amser llawn, yn ogystal â rhwng lefelau a dulliau o astudio, gan gynnwys dysgu o bell. Gwneir hyn orau drwy ymgynghori â chorff myfyrwyr amrywiol a darparwyr. Gan y bydd angen ymdrin â chylch gwaith llawer ehangach, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau nad yw unrhyw ran o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol dan anfantais. Dylai hefyd ganolbwyntio ar anghenion poblogaeth Cymru a'r sector o ran cyflenwad a galw.

Dylai fod gan y Comisiwn rôl cynllunio strategol yn sicr, ond bydd yn hanfodol ymgynghori ac yna weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a darparwyr er mwyn pennu'r ffordd y caiff y cynllun strategol ei ddatblygu a'i roi ar waith.

## Cwestiwn 2:

A ddylai Cytundebau Deilliannau fod yn sylfaen i berthynas cynllunio strategol y Comisiwn â sefydliadau a darparwyr? Os felly, pa gamau y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau yn hyrwyddo meddylfryd tymor byr ymysg sefydliadau?

Mae gan Y Brifysgol Agored brofiad o weithredu yn unol â Chytundebau Deilliannau yn yr Alban, ac mae'n gallu gweld rhai o fanteision posibl y dull gweithredu hwn, ond mae'n bwysig nodi bod system ariannu'r Alban yn wahanol. Felly, mae'n bosibl na fydd hyn yn gwbl briodol i'r cyd-destun Cymreig. Pe bai'r Comisiwn yn gweithredu yn unol â Chytundebau Deilliannau, dylai'r cytundebau hyn ategu a chefnogi gwaith cynllunio strategol ac ymreolaeth sefydliadau a pheidio ag atal neu gyfyngu ar SAUau. Yn yr Alban, mae Cytundebau Deilliannau yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd er mwyn annog meddylfryd tymor hwy, ac mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau blynyddol drwy broses hunanwerthuso. Mae'n hanfodol bod blaenoriaethau strategol yn cael eu datblygu ar lefel uchel mewn partneriaeth â'r sector ac yn fanwl â darparwyr penodol, gan gydnabod cenhadaeth a chyfraniad penodol y darparwr i'r dirwedd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Gallai'r Comisiwn ystyried meini prawf ar gyfer Cytundebau Deilliannau o ran nodweddion gwarchoddedig a myfyrwyr targed eraill.

Bydd yn bwysig sicrhau nad yw'r hyn a roddir ar waith yn arwain at haenau diangen o ofynion gweinyddol ac adrodd ar gyfer sefydliadau. Ar gyfer SAUau yng Nghymru, a fydd hyn yn disodli cynlluniau ffioedd a mynediad a'r dogfennau cynllunio strategol ac ymgysylltu cyfredol? Mae'n bosibl na fydd un dull gweithredu i bob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn addas, gan fod angen diogelu gofynion deddfwriaethol gwahanol a lefelau gwahanol o ymreolaeth sefydliadol. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried hefyd p'un a fydd y Cytundebau Deilliannau arfaethedig yn mynnu bod sefydliadau yn cyrraedd / cyfrannu at bob targed neu p'un a fydd gofyn i sefydliadau fanteisio ar eu prif gryfderau ac adlewyrchu amrywiaeth eu proffil myfyrwyr. Gellid meincnodi ym mhob rhan o'r sector ond, wrth wneud hynny, dylid ystyried amgylchiadau ac anghenion mathau gwahanol o ddarparwyr ac ymateb iddynt – e.e. dysgu o bell.

Cafodd trefniadau cynllunio strategol presennol eu datblygu drwy ymgynghori'n uniongyrchol â'r gymuned cynllunio sector, a chafodd y gwaith o ddatblygu a rhoi'r trefniadau hyn ar waith ei arwain wedyn gan y sector. Byddai'n ddymunol pe gallai'r rôl a'r gydberthynas hon barhau a phe gallai'r corff newydd fanteisio ar yr arbenigedd o fewn y sector. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau y ceir trafodaethau rheolaidd â darparwyr y tu allan i'r strwythur adrodd ffurfiol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a disgwyliadau.

Byddem yn fwy na pharod i werthuso profiad Y Brifysgol Agored o'r model Cytundeb Deilliannau yn fanylach fel rhan o'r ymgynghoriad technegol. Yn yr un modd, byddem yn fwy na pharod i drefnu cyfarfod rhwng uwch gydweithwyr rheoli o swyddfa'r Brifysgol Agored yn yr Alban a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn trafod manteision ac anfanteision model yr Alban os byddai hyn yn ddefnyddiol o fewn y broses addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

## Un Sefydliad Cyllido

### **Cwestiwn 3:**

Ydych chi'n cytuno y dylai cyllid ar gyfer y Comisiwn ddibynnu ar lunio cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru?

Rydym yn cytuno â'r dull gweithredu hwn, cyn belled â bod y cynllun strategol yn cael ei lunio drwy ymgynghori â'r sector a chynrychiolwyr myfyrwyr sy'n cynnwys amrywiaeth eang o fyfyrwyr, yn arbennig y rhai yn y sector rhan-amser a'r sector dysgu o bell. Bydd hyn yn sicrhau bod pob sector perthnasol o fewn y sector ôl-orfodol yn cael y cyfle i dynnu sylw at y ffordd y gallant gyfrannu orau at agenda'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Dylai'r egwyddor hyd braich sydd ar waith ar hyn o bryd ym maes addysg uwch barhau, ac mae angen sicrhau bod cyfle i'r cynllun strategol adlewyrchu cryfderau mathau gwahanol o ddarparwyr a dulliau o astudio. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cael llythyr cylch gwaith bob blwyddyn gan y Llywodraeth, a gall fod yn ddefnyddiol cadw'r broses hon ar ryw ffurf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod mapio priodol i bolisi perthnasol y Llywodraeth.

### **Cwestiwn 4:**

Ydych chi'n cytuno y dylai cymhwysedd darparwr ar gyfer cyllid ddibynnu ar lunio Cytundeb Deilliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau perthnasol yn y Cynllun Strategol?

Gan dybio y caiff sefydliadau'r cyfle i gyfrannu at y Cynllun Strategol, mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cytuno y gallai Cytundebau Deilliannau fod yn llwybr sy'n helpu i sicrhau atebolrwydd. Wrth bennu cyllid, bydd angen ystyried gwahaniaethau ym mhob sector perthnasol o fewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; er enghraifft, mae'r Brifysgol Agored yn cynnig cyfleoedd dysgu rhan-amser i oedolion ac yn denu cyfran fawr o fyfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig – byddai angen i unrhyw Gytundeb Deilliannau a chyllid cysylltiedig adlewyrchu'r cymhlethdodau ychwanegol sy'n ymwneud â chyflawni'r genhadaeth gymdeithasol hon.

Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwahaniaethau mewn dulliau o astudio a phroffiliau myfyrwyr yn cael sylw yn y Cytundeb Deilliannau a'r trefniadau cyllido o'r dechrau, a rhaid i gytundebau gael eu hystyried yn eu cyd-destun er mwyn adlewyrchu nodweddion corff myfyrwyr sefydliad.

Er mwyn cyflawni amcanion penodol y gall Llywodraeth Cymru a/neu'r Comisiwn eu nodi, bydd angen parhau i ddarparu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer mathau penodol o ddarpariaeth megis addysg uwch ran-amser.

### **Cwestiwn 5:**

Ydych chi'n cytuno y dylai lefelau cyllid ddibynnu, mewn unrhyw ffordd, ar berfformiad darparwr yn erbyn ei Gytundeb Deilliannau?

Mae angen trafod a chytuno ar unrhyw Gytundebau Deilliannau gyda sefydliadau drwy gyfrwng deialog barhaus. Mae angen trafod a chytuno ar unrhyw danberfformiad yn erbyn targedau yn yr un modd. Mae angen i'r sefydliad egluro'r rhesymau dros danberfformiad a'u trafod â'r corff cyllido at ddibenion gwella yn hytrach na chosbi. Byddai cael system goleuadau traffig, a'r cyfle i rybuddio ac esbonio pam na fydd Cytundebau Deilliannau yn cael eu cyflawni o bosibl cyn diwygio cyllid, yn ddymunol. Os na all darparwr gyrraedd y targedau a nodir yn y Cytundeb Deilliannau oherwydd amgylchiadau annisgwyl, ni ddylai gael ei gosbi drwy leihau'r cyllid sydd ar gael iddo ar unwaith. Dylai gael y cyfle i esbonio, a rhoi strategaethau unioni ar waith ar gyfer y dyfodol, cyn bod hynny'n cael ei ystyried yn bosibilrwydd. Os yw'n bosibl y gallai cyllid sefydliad ostwng ar fyr rybudd bob blwyddyn, gallai hyn effeithio ar hyfywedd y sefydliad, y bobl sy'n gweithio iddo a'r myfyrwyr y mae'n eu gwasanaethu. Mae risg hefyd na fyddai darparwyr yn gweithredu'n gyson. Gallai rhai ohonynt fod yn llai parod i gymryd risgiau a sicrhau nad yw'r targedau yn eu Cytundeb Deilliannau yn ddigon ymestynnol/heriol.

Yn hytrach na mynnu bod unrhyw gyllid sefydliadol yn dibynnu ar y Cytundeb Deilliannau, byddai'n well cysylltu ffrydiau cyllid penodol â thargedau er mwyn cydnabod cryfderau a chenhadaeth benodol darparwr unigol. Mae cyfle i'r Comisiwn hefyd gymhell darparwyr i flaenoriaethu amcanion strategol penodol â chyllid ar wahân. Mae angen i hyn gael ei gysylltu'n glir â ffocws y Comisiwn ar wella, sydd wedi'i gwmpasu yng Nghwestiwn 15.

### **Cwestiwn 6:**

Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion i'r sefydliad, a/neu i Lywodraeth Cymru, os yw sefydliad mewn perygl ariannol difrifol?

Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi hyn, ond hoffem gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o 'berygl ariannol difrifol'. Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am y statws a fyddai'n cael ei roi i'r argymhellion.

Mae'r Brifysgol yn cael ei rheoleiddio'n bennaf gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr o dan Femorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd, sy'n diffinio'r amodau ar gyfer

rhoi arian cyhoeddus i'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r Memorandwm hwn ac amodau'r grant a nodir yn y cytundebau cyllido â'r grantiwr perthnasol.

Fel SAU pedair gwlad, mae gennym gytundebau cyllido ar wahân â'r cyrff cyllido yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r bwriad yw eu bod yn cyfateb i'r memorandwm ariannol sydd ar waith rhwng cyrff cyllido'r gwledydd unigol a'r SAUau a gaiff eu hariannu ganddynt. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i osgoi dyblygu unrhyw waith rheoleiddio yn ddiangen. Byddai'n well gennym barhau â'r model hwn yn y dyfodol er mwyn ein galluogi i sicrhau gwerth am arian o ran gwaith rheoleiddio. Byddai hyn yn cwmpasu cyfrifoldebau adrodd ariannol, gan gynnwys risg ariannol.

### **Cwestiwn 7:**

Os yw'r Comisiwn yn credu nad yw sefydliad yn hyfyw yn ariannol bellach, ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod â'r pŵer i wneud argymhellion priodol i Lywodraeth Cymru a pha fesurau diogelu y bydd eu hangen o bosibl?

Gan mai diogelu'r myfyriwr yw'r peth pwysicaf, rydym yn cytuno y dylai'r Comisiwn allu cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, hoffem ragor o wybodaeth am y diffiniad o 'yn anhyfyw yn ariannol' a'r math o argymhellion a fyddai'n cael eu hystyried. Bydd ymgynghori â'r sefydliad yn hanfodol a bydd angen i fesurau diogelu fod ar waith fel rhan o'r broses er mwyn diogelu sefydliadau a'u hymreolaeth.

Gweler hefyd ein hymateb i gwestiwn 6 ar sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored fel SAU pedair gwlad.

### *Diogelu buddiannau dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol*

### **Cwestiwn 8:**

Ydych chi'n cytuno bod angen cryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru?

Rydym yn cefnogi'r awgrym y dylid atgyfnerthu'r system cynrychiolaeth myfyrwyr o fewn y corff newydd, ond mae'n hanfodol bod myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr dysgu o bell yn benodol yn rhan ohoni.

Ar hyn o bryd, mae gofyn i SAUau nodi'r modd y byddant yn diogelu buddiannau myfyrwyr mewn Siarteri Myfyrwyr, felly nid ydym o'r farn bod tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod angen i ni atgyfnerthu trefniadau ar gyfer sefydliadau a gaiff eu rheoleiddio.

Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan bob darparwr dan yr ymbarél addysg a hyfforddiant ôl-orfodol eang weithdrefnau monitro a sicrwydd ariannol ar waith er mwyn diogelu buddiannau pob myfyriwr. Bydd y mecanweithiau ar gyfer hyn yn amrywio ar hyn o bryd ym mhob un o'r sectorau, ac efallai na fydd un dull gweithredu yn addas i bawb, ond mae'n rhaid i anghenion a diogelwch myfyrwyr fod wrth wraidd yr holl drefniadau.

### **Cwestiwn 9:**

Os ydych chi, pa drefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr na allant barhau i astudio eu cwrs gyda'r darparwr o'u dewis oherwydd bod y cwrs yn dod i ben, bod campws yn cau neu oherwydd methiant darparwr?

Dylai fod gan y Comisiwn newydd rôl yn y gwaith o ddiogelu myfyrwyr a chynnig opsiynau trosglwyddo i fyfyrwyr (gweler yr ymateb i gwestiwn 11 ar drosglwyddo credydau). Gellid rhoi Cynlluniau Diogelu Myfyrwyr ar waith a'u cysylltu â thelerau ac amodau cytundebol darparwr â'r myfyriwr. Dylai Cynlluniau Diogelu Myfyrwyr adlewyrchu amgylchiadau gwahanol myfyrwyr a dulliau darparu gwahanol.

Gallai'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r broses o drosglwyddo credydau er mwyn ystyried sut i'w datblygu a sut y gellid ei defnyddio i arbed myfyrwyr rhag sefydliadau sy'n methu. Ledled y DU, mae llawer mwy o fyfyrwyr yn trosglwyddo i'r Brifysgol Agored nag unrhyw brifysgol arall. Mae mwy nag un o bob 10 myfyriwr sy'n defnyddio ei ddysgu blaenorol i drosglwyddo yn dod i'r Brifysgol Agored. Byddem yn fwy na pharod i drafod hyn ymhellach gyda Llywodraeth Cymru, cyrff presennol a'r Comisiwn newydd.

### **Cwestiwn 10:**

A ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi i dderbyn cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru gynnwys cynlluniau diogelu myfyrwyr yn eu Cytundebau Deilliannau?

Mae ystod o fesurau ym maes addysg uwch eisoes yn cwmpasu'r diogelwch hwn, gan gynnwys systemau Sicrhau Ansawdd a chydymffurfiaeth â rheoliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae fframwaith pob darparwr ar gyfer diogelu myfyrwyr hefyd i'w weld yn ei Siarter Myfyrwyr. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer diogelu myfyrwyr yn briodol, felly ni fyddai angen i hyn o reidrwydd gael ei gwmpasu o fewn Cytundeb Deilliannau darparwr.

Mae hyn yn rhywbeth y gallai'r Comisiwn ei arwain ym mhob rhan o'r sector er mwyn diogelu myfyrwyr, a dylid ei drafod â darparwyr wrth i'r fframwaith ar gyfer unrhyw gytundebau gael ei ddatblygu.

## Cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr

### **Cwestiwn 11:**

Pa gymorth sydd angen ei ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno newid cwrs neu ddarparwr?

Mae'r Brifysgol Agored eisoes yn hyrwyddo'r broses o drosglwyddo credydau drwy gydol taith y myfyriwr/ymholwr, ac mae nifer o'n myfyrwyr ehangu mynediad a myfyrwyr dysgu seiliedig ar waith yn dod atom drwy'r llwybr hwn ac yn astudio ein Gradd Agored. Gallai hwn fod yn un o fanteision allweddol corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol cyfunol er mwyn helpu dysgwyr i drosglwyddo rhwng darparwyr ac astudio'n hyblyg. Mae angen i sefydliadau reoli hyn yn unol â'u gweithdrefnau mynediad eu hunain, ond gall rhyw fath o fframwaith arweiniol gan y Comisiwn sy'n cynnwys enghreifftiau o arfer da fod yn ddefnyddiol. Byddem yn fwy na pharod i roi rhagor o wybodaeth am ein dull o ymdrin â'r broses o drosglwyddo credydau a syniadau o ran sut i alluogi mwy o fyfyrwyr i elwa ohoni, os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Rhaid i'r cyfle i newid cwrs o fewn neu rhwng darparwyr gael ei gyfleu'n glir i ddysgwyr. Gallai'r Comisiwn lunio canllaw arfer gorau defnyddiol i ddarparwyr er mwyn sicrhau bod yr ystod o gyfleoedd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar gael i bob dysgwr yng Nghymru yn ddiwahân. Dylai cymorth a gwybodaeth gyson gael eu rhoi i bob dysgwr ledled Cymru. Dylai dysgwyr, beth bynnag fo'u hoedran neu eu dull o astudio, allu cael gafael ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd sy'n cwmpasu cyrsiau, gyrfaoedd, llwybrau dilyniant, opsiynau i drosglwyddo credydau ac agweddau eraill ar ddysgu. Dylai'r gweithgarwch hwn roi'r dysgwr yn gyntaf a hefyd annog trosglwyddo rhwng addysg uwch ac addysg bellach a darparwyr eraill. Gall cyrsiau byr, bathodynau cyflawni dros dro a/neu gymwysterau helpu hefyd.

Yn Lloegr, o dan y Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil, mae dyletswydd ar y Swyddfa Myfyrwyr i fonitro, hwyluso ac adrodd ar drefniadau trosglwyddo myfyrwyr (h.y. trosglwyddo credydau); mae hyn yn rhywbeth y gallai'r Comisiwn newydd ei wneud yng Nghymru.

Dylai'r broses o drosglwyddo hefyd darfu cyn lleied â phosibl ar drefniadau ariannol myfyriwr os bydd angen iddo wneud hynny.

### **Cwestiwn 12:**

Pa rôl, os o gwbl, y dylai'r Comisiwn newydd ei chyflawni er mwyn sicrhau bod trefniadau ar waith i hwyluso trefniadau trosglwyddo myfyrwyr a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn ymysg dysgwyr?

Dylai'r Comisiwn bennu meini prawf/disgwyliadau clir y dylai pob darparwr eu cyflawni. Bydd angen i'r rhain adlewyrchu amgylchiadau darparwyr a ffyrdd gwahanol o weithredu. Hefyd, byddai angen i ddarparwyr sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn eu polisiau/rheoliadau. Gallai'r rhain gynnwys rhoi dolen i wybodaeth bwrpasol ar wefan y Comisiwn, gan nodi'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sydd ar gael i ddysgwyr a manylion cyswllt darparwyr a

chyrrff sy'n cynrychioli myfyrwyr.

Gweler ein hymateb i gwestiwn 11 ar drosglwyddo credydau. Dylai'r Comisiwn annog a hyrwyddo'r broses o drosglwyddo credydau, a gellid ei chynnwys yn y Cytundebau Deilliannau neu'r trefniadau goruchwylio strategol eraill y cytunir arnynt â darparwyr.

### Rheoli Cwynion Dysgwyr

#### **Cwestiwn 13:**

A oes angen cyflwyno trefniadau datrys cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol na allant wneud cynw yn i gorff annibynnol ar hyn o bryd? Os oes, pa drefniadau datrys cwynion sydd angen eu rhoi ar waith ar gyfer dysgwyr ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Dylai fod corff annibynnol sy'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ymateb i gwynion a gânt, yn debyg i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban. Os nad yw hynny'n bosibl, dylai fod corff gwrthrychol y gellir cyfeirio cwynion heb eu datrys ato. Yn ddelfrydol, byddai'n estyniad o swyddogaeth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, gan fod hynny eisoes yn gweithio'n effeithiol ym maes addysg uwch.

### Sicrhau a Gwella Ansawdd

#### **Cwestiwn 14:**

Pa fodelau y gallai'r Comisiwn eu defnyddio i greu Fframwaith Sicrhau Ansawdd sy'n cwmpasu darpariaeth o bob math?

Byddai'n well gan y Brifysgol Agored pe bai unrhyw reoliadau neu ofynion y mae disgwyl i ni eu bodloni o dan y Comisiwn newydd yr un fath â disgwyliadau a gofynion ansawdd presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr sy'n dylanwadu'n sylweddol ar ein polisïau a'n prosesau, megis Cod Ansawdd y DU.

Gallai fod yn anodd cyflawni fframwaith cyffredinol ar gyfer pob sector; bydd ymgynghori â'r sectorau, darparwyr, myfyrwyr a chyrrff rhanddeiliaid megis yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn hanfodol wrth weithio hyn allan a dod i gasgliad ynghylch p'un a yw'n ymarferol ac yn ddymunol.

O ran darparwyr addysg uwch yng Nghymru, mae'n hanfodol bod fframwaith ansawdd y Comisiwn yn debyg i fframweithiau eraill yn y DU. Fel y cyfryw, ni ddylai unrhyw fodel traws-sector beryglu enw da darparwyr.

Mae Fframwaith Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn yr Alban yn un traws-sector sy'n gweithio ar themâu tair blynedd, a gall fod yn bwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer y gwaith hwn.



**Cwestiwn 15:**

A ddylai gwella ansawdd fod yn nodwedd allweddol o Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Comisiwn?

Dylai. Mae cyfle mawr i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru rannu arfer gorau a datblygu cyfleoedd i ddysgwyr ar sail gydweithredol. Mae gan Y Brifysgol Agored brofiad o gyfrannu at waith Sicrhau Ansawdd yn yr Alban sy'n canolbwyntio ar wella, a byddem yn fwy na pharod i roi rhagor o wybodaeth fel rhan o ymgynghoriad technegol.

Mae'n hanfodol bod llais y dysgwr wrth wraidd unrhyw weithgarwch gwella o fewn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru, gan adeiladu ar y llwyfan cadarn sydd eisoes ar waith ym maes addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod hyn yn cynnwys ystod o leisiau dysgwyr o wahanol rannau o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac yn cwmpasu pob dull o astudio. Yn unol ag argymhellion Adolygiad Diamond, mae'n arbennig o bwysig bod parch cydradd rhwng llais y dysgwr rhan-amser a llais y dysgwr amser llawn.

Sicrwydd Ariannol a Llywodraethu

**Cwestiwn 16:**

Rydym yn croesawu safbwyntiau ar rôl y Comisiwn yn y dyfodol yn ymwneud â phrentisiaethau yng Nghymru. Yn benodol, byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r system brentisiaethau yng Nghymru y mae Deddf 2009 yn darparu ar ei chyfer.

Dylai fod gan y Comisiwn rôl yn y gwaith o ddarparu prentisiaethau a llunio strategaeth ar gyfer prentisiaethau, gan nad yw'n gwneud synnwyr i hyn fod y tu allan i weddill y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd prentisiaeth, mae angen cael model gweithredu tryloyw y gall cyflogwyr a myfyrwyr ei ddeall yn hawdd ac a fydd yn gweithio i gyflogwyr sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr neu drwy'r DU gyfan.

Rheoli Perfformiad a Risg

**Cwestiwn 17:**

Ydych chi'n credu bod y cynigion uchod ar gyfer monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd ledled y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ddigonol ac yn briodol?

Ydym, ond byddem yn croesawu cyfle i gyflwyno sylwadau ar fanylion yr ymgynghoriad technegol.

O ran yr adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru – dylid cytuno ar fformat y ddogfen hon a'r gofynion sy'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau a data ar y cyd â sefydliadau a darparwyr, a bydd angen i'r fformat a'r gofynion hefyd gael eu rhoi yn eu cyd-destun (gweler yr ymateb i gwestiwn 24). Ni ddylai'r gweithgarwch hwn olygu

ychwaith fod yn rhaid i sefydliadau fodloni gofynion adrodd ychwanegol a rhaid iddo barchu ymreolaeth sefydliadol SAUau.

**Cwestiwn 18:**

Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn cael ei chynnal mewn ffordd gynaliadwy yn fwy hirdymor?

Wrth gynllunio ar gyfer cyllido'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn y dyfodol, mae angen ystyried diogelu cyllidebau sy'n galluogi'r broses o ehangu mynediad a chefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth ran-amser. Mae nifer y myfyrwyr rhan-amser yng Nghymru yn lleihau ac, er y dylai'r system gyllido a chymorth newydd helpu i annog twf yn nifer y myfyrwyr rhan-amser, bydd angen cymorth penodol o hyd os ydym am osgoi'r lleihad catastroffig yn nifer y myfyrwyr rhan-amser a welwyd yn Lloegr. Mae angen cydnabod yr amrywiaeth o ddarparwyr a neilltuo cyllid penodol er mwyn cefnogi'r rhai a all helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn (megis twf yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser) drwy eu darpariaeth.

Bydd angen mynd ati i werthuso'r ffordd y mae'n gweithio i bob rhanddeiliad yn rheolaidd ac yn barhaus hefyd, gyda ffocws ar fyfyrwyr sy'n cynnwys amrywiaeth eang o fyfyrwyr a phob dull o astudio. Gallai'r Comisiwn hwyluso uwchgynhadledd i ddarparwyr a dysgwyr, o bosibl bob dwy neu dair blynedd, sy'n cwmpasu pob rhan o'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Gallai hyn helpu i adolygu'r system yn ei chyfanrwydd, cynnig enghreifftiau o arfer gorau a llywio amcanion strategol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys themâu gwella penodol.

*Ymchwil ac Arloesi*

**Cwestiwn 19:**

Ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu pwyllgor Comisiwn â'r teitl Ymchwil ac Arloesi Cymru?

Ydym. Byddai'n werth chweil cael pwyllgor â ffocws penodol ar Ymchwil ac Arloesedd yng Nghymru ar gyfer rhyngweithio'n agos â rhanddeiliad yng Nghymru a deall anghenion strategol cyffredinol yn genedlaethol, ynghyd â photensial y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i gyfrannu at "Gymru ffyniannus". Mae creu UKRI yn gam cadarnhaol, ond mae'n sefydliad eang iawn, felly dylai cael ffocws yng Nghymru allu ategu gwaith UKRI. Bydd Ymchwil ac Arloesedd Cymru yn gallu cyfrannu at waith UKRI a helpu i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion rhanddeiliaid Cymru. Dylai'r pwyllgor ystyried sut y bydd yn ymgysylltu â phob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, nid dim ond â'r sefydliadau ymchwil-ddwys, a bydd angen iddo sicrhau ei fod yn cyfrannu at y weledigaeth strategol gyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy'n cwmpasu pob sefydliad, myfyriwr a chyflogwr.

**Cwestiwn 20:**

Ydych chi'n cytuno y dylai Ymchwil ac Arloesi Cymru weithredu yn unol â'r hyn a nodir uchod er mwyn datblygu capasiti a gallu ymchwil ac arloesi yng Nghymru?

Mae'r Brifysgol Agored yn cael cyllid Ymchwil sy'n Gysylltiedig ag Ansawdd drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, ond byddai'n croesawu dull sector cyfan yng Nghymru o ymdrin â chyllid arloesedd. Ymddengys bod y cynigion yn y papur gwyn yn briodol, ond bydd angen eu hystyried hefyd ochr yn ochr â chanfyddiadau Adolygiad Reid.

Bydd angen i Ymchwil ac Arloesedd Cymru gydredeg yn agos ag UKRI fel bod academyddion yng Nghymru yn meithrin gallu yn unol â gweledigaeth strategol gyffredinol y DU ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd. Ni fydd unrhyw fanteision o greu seilo yng Nghymru nad yw'n cydweithio â gweddill y DU. Fodd bynnag, mater allweddol sydd ar goll/nad yw'n cael sylw priodol yn y ddogfen ymgynghori yw'r ffordd y gallai/dylai Ymchwil ac Arloesedd Cymru weithio'n fwy eang. Er mwyn bod yn wirioneddol ymatebol i anghenion economi Cymru a bod yn gyfrifol i'r gymdeithas ehangach, mae angen ymgysylltu'n ddyfal ac yn ystyrlon â phob rhanddeiliad perthnasol, gan gynnwys defnyddwyr a'r cyhoedd. Er enghraifft, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am y graddau y bydd Ymchwil ac Arloesedd Cymru yn cael ei lywio gan egwyddorion ac arferion Ymchwil ac Arloesedd Cyfrifol.

### Ehangu mynediad a chyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol

#### **Cwestiwn 21:**

Pa gamau, os o gwbl, sydd angen eu rhoi ar waith i hyrwyddo rhagor o gyfranogiad yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, yn enwedig ymysg unigolion o grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

Mae mwy na 24 y cant o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn dod o gefndir ehangu mynediad, ac mae gennym hanes o ddenu'r rhai sydd bellach oddi wrth addysg uwch i astudio a'u helpu a'u cefnogi. O ganlyniad i'n polisi mynediad agored, cynnig rhan-amser a dull o gefnogi dysgu o bell, Y Brifysgol Agored yn aml yw'r dewis sefydliad i'r rhai ag anableddau, y rhai â chyfrifoldebau gofalu neu'r rhai nad yw eu profiadau o addysg yn gynharach yn eu bywyd o bosibl wedi bod yn gadarnhaol. Ar sail ein profiad helaeth o weithio gyda grwpiau difreintiedig a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, dyma ein sylwadau ar gynyddu cyfranogiad ym maes addysg ôl-orfodol:

- Byddem yn croesawu datblygu fframwaith llwybrau dilyniant clir o addysg bellach, dysgu i oedolion a dysgu seiliedig ar waith i addysg uwch (amser llawn neu ran-amser gan ddibynnu ar anghenion y dysgwr).
- Yn yr un modd, datblygu llwybrau dilyniant i gyflogaeth dda, mynediad i'r proffesiynau, merched ym maes STEM ac ati.
- Mae angen rhwydweithiau partneriaeth cryf ym mhob rhan o'r sector ac ardaloedd awdurdod lleol er mwyn hyrwyddo a hwyluso dilyniant.

- Darparu addysg uwch ym maes addysg bellach, yn y gymuned a'r gweithle gan gynnwys rhaglenni 'Cyflwyniad i Addysg Uwch' er mwyn cyflwyno pynciau, meithrin hyder a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio ar lefel uwch.
- Rhaglenni (megis Rhwydwaith Seren) i helpu myfyrwyr UG neu U2 difreintiedig yng Nghymru i wella eu ceisiadau UCAS a/neu annog dyheadau i ymgymryd ag addysg uwch.
- Gwybodaeth glir a gwaith marchnata pwrpasol sy'n tynnu sylw at yr ystod o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer lefelau gwahanol o astudio ym mhob rhan o'r sector.
- Dylai fod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gael i ddysgwyr o bob oedran a dysgwyr ar bob cam o'u dysgu ym maes addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Gallai hyn gynnwys gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad i ddysgwyr sy'n oedolion sydd ar gael yn y gymuned (lle y gall pobl ei ddefnyddio) er mwyn rhoi cyngor ar opsiynau astudio rhan-amser neu amser llawn (wyneb yn wyneb neu o bell) mewn ardaloedd awdurdod lleol.
- Y defnydd gorau o'r Partneriaethau Ymggyraedd yn Ehangach er mwyn gweithio ar draws rhanbarthau a chydweithio â sefydliadau i gefnogi llwybrau a dilyniant i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.
- Opsiynau a chyllid ar gyfer cyrsiau credyd byr hyblyg sy'n annog dysgwyr i ymgymryd ag addysg uwch.
- O dan arweiniad y sector, cynnal adolygiad sylfaenol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r berthynas rhwng ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch a all ymchwilio i'r ffordd y gall gweithgarwch gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru orau.

Mae'r opsiynau dysgu hyblyg sydd ar gael i fyfyrwyr o bob oedran, cefndir a sefyllfa yn agwedd hanfodol ar hyn. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen bod yn ofalus nad yw unrhyw ddiwygiadau yn cael effaith andwyol ar y sector rhan-amser a dysgu o bell, o ystyried ei rôl hanfodol yn y gwaith o ehangu mynediad.

Mae angen i gyllid i gefnogi gweithgareddau ehangu mynediad y sector rhan-amser / dysgu o bell gael ei glustnodi a'i roi ar sail hirdymor er mwyn annog arloesi a datblygu yn y maes hwn.

## **Cwestiwn 22:**

Sut gallem sicrhau bod mwy o fyfyrwyr sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yn aros ar gyrsiau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a'u cwblhau?

Gellid cynnig mwy o gymorth ar gyrsiau, ond mae angen ystyried cyllid ar gyfer hyn, yn ogystal â disgwyliadau'r Comisiwn o ran cadw myfyrwyr, er mwyn sicrhau nad yw sefydliadau yn cael eu cosbi am ganolbwyntio ar weithgarwch ehangu mynediad. Mae angen i ddata ar recriwtio myfyrwyr a chytundebau gael eu rhannu er mwyn adlewyrchu'r mathau gwahanol o fyfyrwyr.

Mae angen darparu rhaglenni 'Cyflwyniad i Addysg Uwch' er mwyn cyflwyno pynciau, meithrin hyder a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio ar lefel uwch. Gellid wedyn gynnig cymorth ymsefydlu a chymorth graddedig i fyfyrwyr sy'n astudio

cyrsgiau ehangu mynediad. Mae cyrsiau mynediad Y Brifysgol Agored yn enghraifft wych o hyn, ac mae gennym dystiolaeth sy'n awgrymu bod y rhai sydd wedi astudio'r cyrsiau hyn yn mynd ymlaen i wneud yn well na'r rhai sy'n dod o gefndir tebyg pan fyddant yn astudio ar lefel gradd.

Gallai'r Comisiwn hefyd gymell sefydliadau drwy Gytundebau Deilliannau (neu ffyrdd eraill) i gynyddunifer y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sy'n cael ei gynnig i grwpiau targed.

Mae angen i hyn fod yn seiliedig ar ddata clir a gwaith gwerthuso hydredol, gan gynnwys gwaith i sicrhau bod y system Rhif Unigryw Dysgwr yn gweithio i bob darparwr.

Fel rhan o'i ffocws ar wella, dylai'r Comisiwn gefnogi'r broses o rannu arfer gorau ymhlith darparwyr a sicrhau bod llais y dysgwr yn y grwpiau hyn yn cael blaenoriaeth.

### Mesur effaith

#### **Cwestiwn 23:**

Sut gellir cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ehangu mynediad ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol?

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru o'r farn bod angen defnyddio ystod o fesurau a data fel sail dystiolaeth i ehangu mynediad. Dylid datblygu 'basged o fesurau' sy'n ystyried amrywiaeth (gweler y sylwadau yng nghwestiwn 24 ar gynhwysiant o ran oedran ac anabled) ac sy'n dibynnu ar fwy na chod post yn unig. Gallai hyn gynnwys: y rhai sydd â chymhwyster islaw lefel 4, y rhai ar incwm isel, y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, gofalywyr, grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ym maes addysg uwch, y cyntaf yn y teulu i ymgymryd ag addysg uwch. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun y newidiadau sydd ar ddod i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gellid llunio diffiniadau a chategoriâu data newydd mewn partneriaeth â'r sector.

Mae metrigau allweddol yn ddefnyddiol, ond mae'n hollbwysig hefyd eu bod yr un mor fuddiol i bob math o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac i fyfyrwyr o bob oed. Ni fydd yr un peth yn gweithio i bawb. Os caiff y rhain eu cynllunio o safbwynt darpariaeth wyneb yn wyneb i fyfyrwyr ifanc, llawn amser yn unig, ni fyddant yn cynrychioli dysgwyr rhan-amser/sy'n dysgu o bell neu fyfyrwyr hŷn. Yn Lloegr, ym maes addysg uwch, rydym wedi gweld metrigau Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a chanlyniadau addysgol hydredol arbrofol yn cael eu cyhoeddi a'u defnyddio'n eang cyn iddynt weithio'n dda ar gyfer pob dull o astudio a math o fyfyrwr. Nid yw hyn yn ddelfrydol.

Fel yng nghwestiwn 22, mae angen i hyn fod yn seiliedig ar ddata clir a gwaith gwerthuso hydredol, gan gynnwys gwaith i sicrhau bod y system Rhif Unigryw Dysgwr yn gweithio i bob darparwr.

#### **Cwestiwn 24:**

A ddylid gosod dyletswydd ar sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch i gyhoeddi data ar gyfraddau ymgeisio, derbyn a chynnydd myfyrwyr ar sail rhyw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol, a dyletswydd i gyflwyno'r data i'r Comisiwn?

Mae rhannu data â phob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn rhywbeth y gallai'r Comisiwn newydd ei alluogi a'i hwyluso'n fuddiol. Fel rhan o'r gweithgarwch hwn, bydd angen i'r Comisiwn newydd weithio'n agos gyda sefydliadau a darparwyr a bod yn glir o ran sut mae angen casglu data ac at ba ddibenion y caiff eu defnyddio. Lle y bo'n bosibl, dylai hyn fod yn rhan o drefniadau adrodd eraill yn hytrach na'n weithgaredd ychwanegol. Dylid ymgynghori â sefydliadau a darparwyr hefyd ar y data a fydd yn cael eu casglu a'r ffordd y caiff eu defnyddio.

Bydd yn hanfodol gwerthfawrogi ei bod yn fwy anodd recriwtio/datblygu rhai grwpiau o fyfyrwyr, a bod angen i ddata ar gadw myfyrwyr, er enghraifft, gael eu rhoi yn eu cyd-destun. Mewn geiriau eraill, mae angen naratif priodol i gyd-fynd â'r data. Yn ddelfrydol, dylai'r cyntaf ganolbwyntio ar wella, gan ddangos yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi'r grwpiau hyn a gwella deilliannau.

Hoffai'r Brifysgol Agored yng Nghymru weld data ar oedran ac anabledd yn cael eu cyhoeddi, yn ogystal â data ar ryw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol.

Mae'n hanfodol bod grwpiau oedran hŷn yn ymgymryd ag astudiaethau er mwyn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a diwallu'r angen i ailsgilio ac uwchsgilio'r gweithlu presennol.

Mae astudio'n rhan-amser yn ffordd amlwg o gefnogi pobl sydd am ddysgu tra eu bod yn gweithio. O ran anabledd, rhaid dangos bod cymorth ystyrllon ar gael i fyfyrwyr ag anabledd corfforol neu feddyliol ym maes addysg uwch os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni strategaeth gydgysylltiedig i leihau'r bwlch cyflogaeth anabledd yn sylweddol. Gall addysg uwch gyfrannu'n sylweddol at wella cyflogadwyedd pobl ag anableddau. Er enghraifft, yn Y Brifysgol Agored, mae nifer y myfyrwyr sydd ag anableddau wedi mwy na threblu yn ystod y saith mlynedd diwethaf, ac mae gennym fwy na 24,500 o fyfyrwyr ar hyn o bryd sydd wedi datgan bod ganddynt o leiaf un anabledd.

Bydd ychwanegu mwy o gategorïau data yn arwain at fwy o waith craffu ar y sector, yn sicrhau bod mwy o gynnydd yn cael ei wneud o ran amrywiaeth myfyrwyr, a hynny'n gyflymach, ac yn helpu i leihau gwahaniaethu anfwriadol. Mae'r data hyn eisoes yn cael eu casglu oddi wrth SACau gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

*Lleoliadau chweched dosbarth*

#### **Cwestiwn 25:**

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a monitro darpariaeth chweched dosbarth? Os ydych chi, beth yw'ch rhesymau?

Nid oes gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru farn benodol ar gynnwys chweched dosbarth ysgolion. Fodd bynnag, p'un a gaiff ei gynnwys yn uniongyrchol yng nghylch gwaith y Comisiwn neu beidio, rhaid i'r Comisiwn sicrhau ei fod yn rhan o'r strategaeth a'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

Ceir cyfleoedd posibl fel rhan o'r dull traws-sector o wella i gynnwys y chweched dosbarth. Er enghraifft, gellid ehangu Fframwaith Cymhwysedd Digidol y Llywodraeth i gynnwys y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ogystal ag ysgolion, a gellid mabwysiadu dull strategol o ddefnyddio gwerslyfrau Addysg Agored. O ran yr olaf, gall Y Brifysgol Agored – drwy dîm arbenigol yr Hwb Ymchwil Addysg Agored – ddarparu tystiolaeth o'r manteision pan fo'r rhain wedi'u mabwysiadu yng nghyd-destunau addysgol rhanbarthol a chenedlaethol eraill.

**Cwestiwn 26:**

A ydych chi'n credu y dylai'r Comisiwn gyflawni unrhyw swyddogaeth arall mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth, er enghraifft, cofrestru darparwyr, sicrhau a gwella ansawdd, a llywodraethu? Os ydych chi, nodwch eich rhesymau.

Gweler yr ymateb i gwestiwn 25.

**Cwestiwn 27:**

A ydych chi'n credu y byddai'n well sefydlu'r Comisiwn heb gynnwys darpariaeth chweched dosbarth yn ei gylch gwaith, gyda'r opsiwn o wneud hynny maes o law?

Gweler yr ymateb i gwestiwn 25.

*Rheoli'r berthynas Rhwng y comisiwn a darparwyr*

**Cwestiwn 28:**

A ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn newydd weithredu system gofrestru i hwyluso agwedd hyblyg ond cyson at ei ymgysylltiad â sefydliadau a darparwyr ledled yr ystod lawn o weithgarwch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol? Os ydych chi'n cytuno, pa fodel, os o gwbl, sy'n well gennych chi, a pham?

Rydym yn deall bod angen model newydd sy'n hwyluso gwaith ymgysylltu'r Comisiwn newydd â sefydliadau a darparwyr, ac yn cefnogi hynny, ond mae'n hanfodol bod yn hyblyg a chydabod yr amrywiaeth o ddarparwyr a chyrrff myfyrwyr. Rydym yn gweld manteision ac anfanteision y tri model a gynigiwyd.

Mae ein barn ar Gytundebau Deilliannau i'w gweld yng nghwestiynau 2, 4 a 5.

O ran y model rhanbarthol – fel darparwr addysg uwch Cymru gyfan, byddai angen ystyried y ffordd y byddai'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn rhan o'r model rhanbarthol. Ar hyn o bryd, rydym yn aelod o bob un o'r tair Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, ond byddai angen i ni ystyried yr adnoddau a'r capasiti sydd eu hangen i ymgysylltu â phob model pan fydd gofyn i ddarparwyr eraill ymgysylltu ag un yn unig. Byddem yn croesawu eglurder ynghylch p'un a fyddai'r model rhanbarthol arfaethedig yn cyd-fynd â'r ardaloedd partneriaeth presennol, y rhanbarthau dinesig sy'n dod i'r amlwg neu fap arall a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru. Gallai partneriaethau rhanbarthol hefyd rwystro cydweithredu rhwng rhanbarthau a thu hwnt i Gymru.

O ran y model cofrestru – mae angen ystyried sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored fel sefydliad pedair gwlad sy'n cael ei reoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr fel rhan o unrhyw fodel cofrestru.

Byddai'n ddefnyddiol gwybod sut y gall y modelau gwahanol a gynigiwyd effeithio ar drefniadau llywodraethu ac adrodd.

### Llywodraethu Addysg Uwch

#### **Cwestiwn 29:**

Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar sut y gellid moderneiddio deddfwriaeth bresennol yn ymwneud â chorfforaethau addysg uwch (HECs) yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn gyfartal â darparwyr addysg uwch eraill, a'i hymgorffori o dan drefniadau cyfansoddiadol gwahanol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- a ddylid dileu'r amodau presennol yn ymwneud â dogfennau llywodraethu HECs;
- a ddylid dileu'r gofyniad ar gyfer cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor ar gyfer diwygiadau penodol i ddogfennau llywodraethu HECs;
- a ddylid cadw neu ddileu pŵer presennol Gweinidogion Cymru i ddiddymu HECs.

Ar hyn o bryd, mae'r hyn a ddarperir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored fel sefydliad pedair gwlad yn cael ei diogelu a'i chefnogi o dan unrhyw drefniadau newydd. Rydym hefyd yn croesawu darpariaeth sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ddiwygio dogfennau llywodraethu.

#### **Cwestiwn 30:**

Hefyd, rydym yn gofyn am safbwyntiau ynglŷn ag a oes angen diwygio'r broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol i sefydliadau yng Nghymru yn sgil y broses o ddatblygu polisïau gwahanol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn canolbwyntio ar y canlynol yn benodol:

- a ddylid cadw rôl y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â phwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol yng Nghymru neu drosglwyddo cyfrifoldeb am ran o'r broses neu'r broses gyfan i'r corff addysg a hyfforddiant ôl-orfodol newydd;



- a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau ac theitl prifysgol, gan gynnwys y gofyniad yn ymwneud â hanes;
- a yw'r sylfaen benagored bresennol ar gyfer pwerau dyfarnu graddau yn parhau i fod yn briodol yn sgil y newidiadau cyllido a rheoleiddio yng Nghymru;
- a ddylid ystyried y posibilrwydd o gyflwyno pwerau dyfarnu graddau mwy hyblyg yng Nghymru, fel lefel baglor yn unig neu bynciau cyfyngedig;
- a ddylid ystyried pwerau i amrywio a dirymu pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol yng Nghymru;
- a fyddai unrhyw newidiadau i bwerau dyfarnu graddau a threfniadau dilysu yn gwella effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan sefydliadau addysg bellach.

Ar hyn o bryd, mae'r hyn a ddarperir gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod sefyllfa unigryw'r Brifysgol Agored fel sefydliad pedair gwlad yn cael ei diogelu a'i chefnogi o dan unrhyw drefniadau newydd.

### Trefniadau pontio – Paratoi i weithredu

#### **Cwestiwn 31:**

Bydd diogelu buddiannau dysgwyr ac amharu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer y cyfnod pontio. A oes angen ystyried unrhyw faterion eraill?

Bydd cyfathrebu'n effeithiol â gwahanol grwpiau yn hanfodol i sicrhau trosglwyddiad llyfn. Bydd angen rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cadarn i fyfyrwyr, rhieni a chyflogwyr, yn ogystal â thrafod yn rheolaidd â sefydliadau a darparwyr. Bydd yn hanfodol sicrhau bod mathau gwahanol o ddysgwyr yn rhan o unrhyw gynllun cyfathrebu a chydabod y gall fod yn anoddach cyrraedd dysgwyr rhan-amser. Bydd gweithio mewn partneriaeth â phob darparwr yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr yn cael gwybodaeth ac yn cael eu diogelu, yn ogystal â helpu'r darparwyr hynny i addasu eu systemau a'u prosesau mewnol eu hunain, fel sy'n ofynnol gan y corff newydd.

Wrth geisio tarfu cyn lleied â phosibl ar ddarparwyr, dylid cynnal trefniadau ariannu presennol, yn enwedig lle nad yw darparwyr megis Y Brifysgol Agored yn cael y cyfle i groes-sybsideiddio incwm o ffioedd llawn amser. Fel arall, gellid taseilio darpariaeth i fyfyrwyr.

#### **Cwestiwn 32:**

Er mwyn helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig (yn unol ag ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallent gael eu heffeithio'n benodol gan y cynigion

hyn? Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Un o effeithiau cadarnhaol y cynigion hyn, gobeithio, fyddai llwybrau dilyniant cliriach drwy'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gwell, yn enwedig i ddysgwyr sy'n oedolion, y rhai sydd lleiaf tebygol o ymgymryd ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a'r rhai sydd eisoes yn gweithio. Gellid cyflawni hyn drwy fabwysiadu dull mwy strategol o ehangu mynediad a chefnogi mathau hyblyg o ddysgu megis dysgu rhan-amser a dysgu o bell. Gall hyn gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anoddach dysgu mewn ffyrdd traddodiadol, gan gynnwys myfyrwyr ag anableddau a'r rhai â chyfrifoldebau gofalu.

Gallai'r ymgynghoriad sydd i'w gynnal gan Lywodraeth Cymru ar y Lwfans i Fyfyrwyr ag Anableddau ymchwilio i'r ffordd y gellir gwella profiad myfyrwyr ag anableddau a'r cymorth a roddir iddynt yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd.

### **Cwestiwn 33:**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Rydym o'r farn y gallai dull cydgysylltiedig o gynllunio ym mhob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Dylai effeithiau cadarnhaol ddeillio o ddarparu fframwaith mwy di-dor fel y gall y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gefnogi a datblygu cyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

### **Cwestiwn 34:**

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- i) cael effeithiau positif neu gael effeithiau positif ychwanegol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;a
- ii) peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Bydd yn bwysig ystyried sut mae Safonau'r Gymraeg yn gweithio yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol cyfan er mwyn sicrhau bod profiad dysgwyr sy'n symud rhwng darparwyr yn un di-dor.

### **Cwestiwn 35:**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

#### **Y Brifysgol Agored yng Nghymru**

Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969 ac ymgofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arwain y byd o ran cynnig cyfleoedd hyblyg ac arloesol i ddysgu o bell ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.

Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr Y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig rhan-amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron i dri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth tra eu bod yn astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.

Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim OpenLearn (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg OpenLearn Cymru) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein heitemau wedi cael eu lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gallu manteisio ar gyrhaeddiad y Brifysgol ledled y DU ac yn fyd-eang er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i fyfyrwyr a chyllidwyr. Dangosodd ymchwil a wnaed gan London Economics ar gyfer y flwyddyn 2012-13 fod Y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cyfrannu £137m at yr economi, yn yr un flwyddyn ag y cafodd Y Brifysgol Agored oddeutu £9.6m gan CCAUC

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.



